CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Cynorthwyydd Gweithrediadau Hamdden | **Gwasanaeth / Adain:** | Economi a Diwylliant |
| **Lleoliad:** | Canolfan Hamdden Colwyn | **Yn atebol i:** | Neil Williams |
| **Graddfa:** | Cyflog Byw Cenedlaethol | | |

## Pwrpas y Swydd:

Mae Ffit Conwy'n ymrwymo i ddarparu profiad hamdden rhagorol yn Eirias. Mae ein hymrwymiad yn dechrau gyda chroeso cynnes yn y dderbynfa ac yn ymestyn i gynnal safon uchel o lanweithdra ar draws ein cyfleusterau. Yn ogystal â hynny, mae ein tîm o gynorthwywyr hamdden yn sicrhau fod cyfarpar ffitrwydd a chwaraeon wedi'u gosod a'u cadw'n briodol, er mwyn sicrhau profiad llyfn a phleserus i bawb.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau – Penodol i'r Swydd

| | |
|---|---|
| 1. | Patrolio'r ganolfan hamdden, gwneud yn siŵr bod popeth yn iawn a chynorthwyo ymwelwyr. |
| 2. | Sicrhau y cedwir safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r adeilad yn ystod oriau gwaith. |
| 3. | Helpu i osod pethau yn eu lle a thacluso ar ôl pob gweithgaredd a chyfarfod, a fydd yn golygu symud, datgymalu offer, a chodi a symud. |
| 4. | Rhoi gwybod i'r swyddog ar ddyletswydd am unrhyw ddiffygion i'r adeilad neu'r cyfarpar. |
| 5. | Cyflawni holl ddyletswyddau'r dderbynfa, fel derbyn archebion, ateb ymholiadau cwsmeriaid ac ymdrin ag arian parod drwy ddefnyddio til cyfrifiadurol. |
| 6. | Meddu ar wybodaeth drylwyr o'r rhaglen ddyddiol a'r calendr digwyddiadau. |
| 7. | Gwisgo'r wisg Ffit Conwy a ddarperir, a sicrhau eich bod yn ymddangos yn dwt a thaclus bob tro rydych chi ar ddyletswydd. |

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau – Corfforaethol

| | |
|---|---|
| 1. | Meithrin perthnasoedd da yn fewnol ac yn allanol, a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. |
| 2. | Dilyn Polisïau a Gweithdrefnau'r Awdurdod. |
| 3. | Cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant, gan sicrhau amgylchedd gwaith parchus a chefnogol. |

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

| | |
|---|---|
| 4. | Ymgymryd â thasgau neu ddyletswyddau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd eich Rheolwr Atebol. |

## MANYLION AM YR UNIGOLYN

**Sylwch:** Er mwyn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y swydd hon, mae'n **rhaid** i chi ddangos eich bod yn bodloni **pob un** o'r meini prawf H - Hanfodol, oni nodir yn y golofn "Sut y caiff ei brofi" mai yn y Cyfweliad neu drwy Brawf neu Gyflwyniad yn unig y bydd y gofynion yn cael eu profi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym yn eich cais sut rydych chi hefyd yn bodloni unrhyw feini prawf Dymunol.

| Gofynion | Sut y caiff ei brofi | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau a Phrofiad** | | | |
| Sgiliau llythrennedd a rhifedd cyffredinol da. | Ffurflen Gais | H | |
| Nid oes angen cymhwyster ffurfiol, serch hynny, mae diddordeb brwd yn eich dewis/dewisiadau lleoliad yn bwysig. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | | |
| Gallu dilyn cyfarwyddiadau a gofyn am help pan fo'r angen. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Sgiliau cyfathrebu a gwrando da. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrinachedd. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | | D |
| Gallu gweithio gydag aelodau'r tîm a thrin aelodau'r cyhoedd yn gyfeillgar a chwrtais. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Gallu defnyddio TG yn hyderus e.e. Outlook, Microsoft Excel, Word. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Mae gallu cyfathrebu yn Saesneg yn hanfodol. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg ar lefel 1 ar gyfer siarad / ysgrifennu / darllen yn hanfodol / dymunol. Cliciwch yma i weld y canllawiau ar gyfer y lefelau. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad<br>Prawf yn y cyfweliad | H | |
| **Rhinweddau Personol** | | | |
| Agwedd bositif ac agored i adborth. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |
| Prydlon a dibynadwy. | Ffurflen Gais<br>Cyfweliad | H | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Parodrwydd i ddysgu ac i roi cynnig ar dasgau newydd. | Ffurflen Gais Cyfweliad | H | |
| **Gofynion Eraill** | | | |
| Parodrwydd i gwblhau unrhyw hyfforddiant gofynnol. | Ffurflen Gais Cyfweliad | H | |
| Hyblyg ac yn gallu gweithio yn unol â gofynion gwaith y tîm. | Ffurflen Gais Cyfweliad | H | |
| **Safle Gweithredwr Cychod dan Hyfforddiant**<br>Gallu nofio heb gymorth ac yn ddigon ffit yn gorfforol i basio prawf meddygol ML5 a gweithio mewn dŵr agored.<br>*(Mae ML5 yn dystysgrif meddygol ddomestig y mae morwyr neu bysgotwyr ei hangen i brofi eu bod yn feddygol ffit i weithio'n ddiogel ar y môr)* | Ffurflen Gais Cyfweliad | H | |

**Dyddiad Adolygu / Hawl i Amrywio**

Ni fwriedir i'r Swydd-ddisgrifiad hwn na'r Manylion am yr Unigolyn fod yn rhestr gyflawn o holl ddyletswyddau'r swydd. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl, ar ôl ymgynghori'n briodol gyda chi, i amrywio eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau o fewn ffiniau eich lleoliad.

**Dyddiad Rheoli Fersiwn:** ……………………………………………………………………